

Panel Heddlu a Throseddau De Cymru

Datganiad: Cynnydd mewn troseddau casineb hiliol yn dilyn canlyniad Refferendwm yr UE

Mae Panel Heddlu a Throseddau De Cymru yn pryderu ar ôl i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu gyhoeddi ei fod wedi gweld cynnydd mewn troseddau hiliol yn dilyn canlyniad Refferendwm yr UE.

Er bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi cadarnhau nad dyma'r achos yn ardal Heddlu De Cymru, hoffai'r Panel nodi fodd bynnag fod ganddo bolisi dim goddefgarwch tuag at hiliaeth a phob math arall o drosedd casineb a gwahaniaethu.

Bwriad y datganiad hwn ydy ategu negeseuon calonogol gan y Comisiynydd a'r Heddlu ac i gysoni'r datganiadau mae'r Cyngorau Sir wedi'u gwneud yn ardal Heddlu De Cymru.

Mae'r Panel o'r farn y byddai hi'n syniad da atgoffa pobl o ddiffiniad y Swyddfa Gartref o drosedd casineb:

Trosedd casineb ydy unrhyw drosedd sydd, ym marn y dioddefwr neu unrhyw un arall, wedi'i ysgogi gan ragfarn neu gasineb tuag at nodweddion personol unigolyn. Gall y canlynol ysgogi trosedd casineb: anabledd, hunaniaeth ryweddol, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

Sut mae rhoi gwybod am drosedd casineb?

Mae sawl ffordd o roi gwybod am drosedd casineb, os ydych chi'n ddioddefwr, yn dyst neu yn hysbysu ar ran rhywun arall:

Mewn argyfwng: ffoniwch 999. I roi gwybod am drosedd sydd ddim yn argyfwng ffoniwch 101 er mwyn siarad ag aelod o Heddlu De Cymru, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Rydym ni bob tro'n annog dioddefwyr i gysylltu â'r heddlu, ond fe allwch chi hefyd roi gwybod am drosedd yn uniongyrchol drwy ffonio **Cefnogaeth i Ddioddefwyr ar 08456 121 900**, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a byddwch chi'n derbyn gwasanaeth cefnogi ymhen 48 awr.

Fe allwch chi hefyd roi gwybod ar-lein ar y wefan hon - www.reporthate.victimsupport.org.uk lle cewch fwy o wybodaeth a chynghor.

I wybod mwy ewch i:
<https://www.gov.uk/report-hate-crime>